





# BRECHLYN MENB AR GYFER GONOREA



**Beth yw'r brechlyn MenB?**
Datblygwyd y brechlyn MenB (4CMenB/Bexsero®) yn wreiddiol i amddiffyn rhag clefyd meningococal grŵp B, achos difrifol o lid yr ymennydd a gwenwyno gwaed.
Yn 2025, dechreuodd gwasanaethau iechyd rhywiol gynnig y brechlyn i bobl sydd mewn mwy o berygl o gael haint gonorea yn dilyn argymhelliad gan y Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI). Roedd yr argymhelliad hwn yn seiliedig ar astudiaethau a awgrymodd y gallai'r brechlyn ddarparu amddiffyniad rhannol yn erbyn gonorea, gan leihau'r risg o haint tua 30-40%.



**Beth mae tystiolaeth fwy diweddar yn ei ddangos?**
Yn fwy diweddar, mae tair astudiaeth wedi archwilio'n benodol a yw cynnig y brechlyn MenB i bobl sydd â risg uwch o gonorea yn lleihau cyfraddau haint. Mae'r canlyniadau wedi bod yn gymysg ac, ar y cyfan, nid ydynt wedi dangos gostyngiad clir mewn diagnosisau gonorea ymhlith y rhai a gafodd y brechlyn o'i gymharu â'r rhai na chafodd. O ganlyniad, mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch effeithiolrwydd y brechlyn wrth atal gonorea mewn ymarfer clinigol arferol.

Er bod rhagor o dystiolaeth yn cael ei hadolygu, nid yw Gwasanaeth Iechyd Rhywiol Caerdydd a'r Fro ar hyn o bryd yn blaenoriaethu brechiad MenB at ddibenion atal gonorea yn unig.

Nid yw hyn yn effeithio ar fynediad at unrhyw frechlynnau eraill na gwasanaethau atal iechyd rhywiol a gynigir gan y clinig.

**Beth i'w wneud os ydw i eisiau rhagor o wybodaeth**
Os ydych chi'n credu y gallech fod yn gymwys o dan feini prawf presennol y JCVI ac yr hoffech drafod brechu, siaradwch ag aelod o'n tîm.


**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO**

**YR ADRAN IECHYD RHYWIOL**